Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 19 Tachwedd 2012**

Amser:
**14:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gareth Williams**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

### 1. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
### 2.

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

**CLA186 - Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2012**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Hydref 2012. Fe'u gosodwyd ar 29 Hydref 2012. Yn dod i rym ar 19 Tachwedd 2012.

**CLA187 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012.**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 27 Hydref 2012. Fe'u gosodwyd ar 30 Hydref 2012. Yn dod i rym ar 20 Tachwedd 2012.

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

**Dim**

<u>Offerynnau â gweithdrefn arall</u>

**CLA188 - Gorchymyn Gweithrediadau Llusgrwydo Cregyn Bylchog (Dyfeisiau Olrhain) (Cymru) 2012**

Cael ei osod yn unig. Fe'i gwnaed ar 30 Hydref 2012. Fe'i gosodwyd ar 31 Hydref 2012. Yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2012

## 3. Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

<u>Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol</u>

**Dim**

<u>Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol</u>

**Dim**

## 4. Papurau i'w nodi (Tudalennau 1 - 8)

**CLA(4)-22-12 - Adroddiad cyfarfod 5 Tachwedd 2012**

**CLA181 - Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012**
**Papurau:**
**CLA(4)-23-12(p1)** - Llythyr oddi wrth y Cadeirydd i'r Gweinidog dyddiedig 24 Hydref 2012
**CLA(4)-23-12(p2)** - Ymateb y Gweinidog dyddiedig 7 Tachwedd 2012
**CLA(4)-23-12(p3)** - CLA181 - Adroddiad

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**
26 Tachwedd 2012

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

> **Caiff Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:**
> **(vi) lle mae'r Pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi.**

## 6. Adroddiad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (Tudalennau 9 - 24)

**Papurau:**
**CLA(4)-23-12(p4)** - Llythyr oddi wrth y Cadeirydd i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ dyddiedig 9 Hydref 2012

**CLA(4)-23-12(p5)** – Ymateb y Gweinidog dyddiedig 25 Hydref 2012
**CLA(4)-23-12(p6)** – Adroddiad drafft

**Trawsgrifiad**

View the meeting transcript.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-22-12 : 5 Tachwedd 2012**

**Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

**CLA185 - Rheoliadau Cydlafurio Rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 22 Hydref 2012
**Fe'u gosodwyd ar:** 23 Hydref 2012
**Yn dod i rym ar:** 16 Tachwedd 2012

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**Dim**

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

**Dim**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**Dim**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Uwchgadarnhaol**

**CLA184 - Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012**
**Gweithdrefn:** Uwchgadarnhaol.
**Fe'i gwnaed ar**: heb ei nodi.
**Fe'i gosodwyd ar**: heb ei nodi.
**Yn dod i rym ar:** yn unol ag erthygl 1.

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3 ar yr offeryn statudol hwn, sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1.

**Busnes arall**

**Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol**

Ystyriodd y Pwyllgor Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol mewn perthynas â'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru roi cymal machlud a darpariaethau adolygu mewn is-ddeddfwriaeth.

Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon ar y Memorandwm, er ei fod yn nodi bod Llywodraeth Cymru, mewn adroddiad blaenorol ar 'rinweddau' offeryn statudol, wedi nodi amwysedd ynghylch y defnydd o ddarpariaethau adolygu. Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â hynny.

**Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Gweinidog am fethu â bod yn bresennol oherwydd rhesymau personol.

Ystyriodd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd ar 24 Hydref 2012. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan ag eglurhad y Gweinidog o'r materion a godwyd yn llythyr y Cadeirydd.

O ran pensiynau i aelodau o Dribiwnlys y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, nododd y Pwyllgor farn Llywodraeth Cymru nad oedd angen adnewyddu unrhyw gymhwyster a arferai fodoli o dan Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ond yr oedd disgwyl iddi fodoli bellach o dan Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Roedd hyn oherwydd fod y pŵer i wneud darpariaethau 'cysylltiedig' o dan adrannau 108(3) i (5) i'r Ddeddf yn dal ar gael.

Nododd y Pwyllgor barodrwydd y Llywodraeth i ymestyn yr amser ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol er mwyn galluogi Comisiwn y Cynulliad i'w ystyried mewn perthynas â chynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad ac am fod y Bil ei hun mewn cyfnod cymharol gynnar o'r broses o'i ystyried yn y Senedd. Nododd y Pwyllgor ymhellach y byddai ystyriaeth y Goruchaf Lys o Fil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) yn cael effaith ar y gallu i ystyried pensiynau i aelodau Tribiwnlys y Gymraeg yn ddarpariaeth gysylltieidig.

Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon ar y Memorandwm, yn amodol ar sylwadau Comisiwn y Cynulliad mewn perthynas â chynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor y dylid ystyried y mater ymhellach ar ôl cael gwybod am benderfyniad y Goruchaf Lys mewn perthynas â Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru). Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â hynny.

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

**CLA178 – Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2012**

Nododd y Pwyllgor ymateb John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, i lythyr y Cadeirydd ar 11 Hydref ynghylch y pwyntiau rhinweddau o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2012 (CLA178).

Cytunodd y Pwyllgor fod diffyg eglurder o hyd ynghylch ardal y parthau eithrio o gofio bod y Gyfarwyddeb UE yn nodi lleiafswm maint ardal, y gellir ei chynyddu gan Weinidogion heb fod angen deddfwriaeth bellach. Cytunodd y Pwyllgor i ymateb i'r Gweindiog, yn croesawu ei fwriad i ddiwygio'r ddeddfwriaeth yn ystod yr adolygiad nesaf o'r rheoliadau er mwyn cynnwys cyfeiriad at bellteroedd y parthau gwyliadwraeth, ond yn gofyn am wybodaeth ynghylch sut bydd y parthau gwyliadwraeth yn cael eu cyhoeddi yn y cyfamser.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**5 Tachwedd 2012**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-22-12)**

**CLA184**

**Teitl: Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012**

**Gweithdrefn: Uwchgadarnhaol**

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i ffïoedd fod yn daladwy gan gyflenwr dŵr perthnasol am gyflawni swyddogaethau penodol o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 gan arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno.

**Craffu technegol**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Craffu ar rinweddau**

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.-

Er bod y pwnc (cyfrifo ffioedd archwilio a rhai cysylltiedig) yn un sy'n fwy tebygol o fod mewn offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol yn rhinwedd adran 19 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011.

Gwneir gorchmynion i'r un diben ar gyfer Cymru a Lloegr, ond oherwydd bod y pwerau galluogi yn wahanol, defnyddir dau offeryn yn hytrach nag un ar y cyd. Mantais hyn yw bod y ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru yn cael ei gwneud yn ddwyieithog.

[ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad - Rheol Sefydlog 21.3(ii)]

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**5 Tachwedd 2012**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gwenda Thomas AM
Deputy Minister for Children and Social Services
Welsh Government
5th Floor
Tŷ Hywel
Cardiff Bay

24 October 2012

Dear Minister

**CLA181 - The Play Sufficiency Assessment (Wales) Regulations 2012**

The Constitutional and Legislative Affairs Committee considered the above Statutory Instrument at its meeting on 22 October 2012 and agreed that I should bring to your attention the Committee's report made under Standing Order 21.3 on the merits of the Instrument.

The Committee agreed to invite the Assembly to pay special attention to this Instrument on the grounds "that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Assembly" (Standing Order 21.3(ii)).

The Committee's report was laid in the Table Office on 23 October 2012 and is attached for information. I would be grateful if you could consider the report and let the Committee have your response in due course.

I am copying this report to the First Minister for information and have also arranged for the report and this letter to be drawn to the attention of Assembly Members.

Yours sincerely

**David Melding AM**
**Chair**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
E-bost / Email: olga.lewis@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Children and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CLA181
Ein cyf/Our ref SF/GT/3472/12

David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Tachwedd 2012

Annwyl David,

**CLA181 – Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 24 Hydref, ar ran y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ynghylch Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012.

Rwyf wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor ac fe hoffwn ddiolch i chi am eich sylwadau. Rwy'n cydnabod y sylw bod angen cynnwys "diffiniad clir o 'chwarae' sy'n cynnwys chwarae wedi'i strwythuro a chwarae dirwystr", yn y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol. Fel y gwyddoch, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sy'n darparu'r sail ar gyfer y Rheoliadau. Yn Adran 11(6) o'r Mesur, diffinnir bod 'Chwarae' yn cynnwys "unrhyw weithgaredd hamdden".

Ym Mholisi Chwarae Llywodraeth Cymru 2002, nodir bod:

*"chwarae'n ymddygiad y mae'r plentyn wedi'i ddewis o'i wirfodd, yn ei lywio ei hun ac yn ei wneud er ei fwyn ei hun. Mae'n cael ei wneud heb olwg ar unrhyw nod na gwobr allanol".*

Mae fy swyddogion wedi trafod ac ymgynghori'n eang gyda rhanddeiliaid wrth ddrafftio Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 ynghyd â'r Canllawiau Statudol cysylltiedig, er mwyn ymgorffori'r diffiniadau hyn ac amlinellu'n glir y gofynion ar gyfer chwarae rhydd a gweithgareddau hamdden strwythuredig yn yr asesiadau y bydd gofyn eu cynnal. Mae'r Adroddiad Cryno ar yr ymgynghoriad yn amlinellu ein hymateb i'r mater hwn.

Yn gywir,

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Children and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

**(CLA(4)-21-12)**

**CLA181**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee Report**

**Title: The Play Sufficiency Assessment (Wales) Regulations 2012**

**Procedure: Negative**

These Regulations which are made under section 11(1) of the Children and Families (Wales) Measure 2010:-

- set out the required content of a local authority's assessment of the sufficiency of play opportunities in its area;
- set out the individuals and groups that a local authority must consult;
- require an action plan to be prepared as part of the assessment by each local authority;
- provide for the frequency of the assessments, and the manner in which the results of the assessments must be published.

**Technical Scrutiny**

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument

**Merits Scrutiny**

**The following points are identified for reporting under Standing Order 21.3 (ii) in respect of this instrument - that it gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Assembly**

- In November 2010, the Children and Young People Committee of the third Assembly published the report of its Inquiry *into 'safe places to play and hang out'*. In the report's first recommendation, the Committee urged the Welsh Government:

  > *"…to complete its review of the standards and guidance for play at the earliest opportunity…. The guidance should include a clear definition of 'play' that includes **both structured and free play**…. [Our emphasis].*

- The Welsh Government subsequently accepted the Committee's recommendation and made clear that:

> *"Greater clarification will be provided on the meaning of 'play' and the term will be sufficiently broad to include both 'structured' and 'free play'."*

- Paragraph 8.2 of the Explanatory Memorandum (EM) refers to the Welsh Government consultation on the draft regulations and indicates that a significant proportion (as many as 56%) of those responding may want greater clarity in the regulations, and were *"primarily concerned about the relation between freely chosen play and adult led recreational activities."*

- The EM states that *'the summary report responds to this concern in more detail'*, that "*the Regulations and the Statutory Guidance have been amended accordingly*" and that *"A summary of the amendments…has been made available on the Welsh Government's web site.*"

- At the time of the Committee's meeting the summary report was unavailable on the Welsh Government website. Although, copies of the report were made available at the meeting, this did not provide the Committee with sufficient time to be able to assess whether the Welsh Government has fully addressed the recommendation in the Children and Young People's Report or the concerns raised by respondents to the consultation on the draft regulations.

- The Committee was also mindful of its role in drawing attention to subordinate legislation that addressed concerns and recommendations made by Assembly Committees.

**Simon Thomas AM**
Acting Chair, Constitutional and Legislative Affairs Committee

**22 October 2012**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon